Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad

# Trefniadau Trochi yn y Gymraeg yng

# Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Neuadd y Dref**
**Wrecsam**

**LL11 1AY**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/12/2024 |

**Cyd-destun**

Mae wyth ysgol gynradd Gymraeg ac un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn awdurdod lleol Wrecsam. Adeg yr arolygiad, roedd dwy ganolfan drochi Cymraeg yn yr awdurdod lleol, canolfan gynradd Cynefin wedi'i lleoli yn Ysgol Min y Ddol a chanolfan uwchradd wedi'i lleoli yn Ysgol Morgan Llwyd.

Mae trefniadau trochi yn y Gymraeg awdurdod lleol Wrecsam wedi esblygu'n sylweddol ers 2018. Mae Ysgol Morgan Llwyd wedi cynnal rhaglen trochi am nifer o flynyddoedd sydd wedi galluogi disgyblion o ysgolion cyfrwng Saesneg i symud i addysg cyfrwng Cymraeg drwy eu trochi yn yr iaith ym Mlynyddoedd 7 ac 8. Mae'r cynllun wedi'i noddi ar y cyd rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol

Yn 2018, penodwyd cydlynydd allgymorth ar gyfer hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd. Erbyn 2020, datblygodd y cydlynydd allgymorth raglen hyblyg o gefnogaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid a chefnogi iaith yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i'r cyfnod clo. Yn 2021, derbyniwyd grant trochi hwyr a defnyddiwyd hwn i gyflogi cymhorthydd ychwanegol. Bellach, mae'r cydlynydd wedi'i rhyddhau i ddatblygu cynllun datblygu'r awdurdod lleol a rheoli'r tîm hwyrddyfodiaid. Yn 2022, daeth y ddarpariaeth trochi uwchradd o dan ofal yr awdurdod lleol. Bellach, mae tri athro ac un cymhorthydd yn cefnogi'r ddarpariaeth ar draws y cynradd a'r uwchradd, gyda'r rheolwr yn cydlynu'r ddarpariaeth ar draws yr awdurdod.

## Crynodeb

Mewn cyfnod byr, mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau trochi iaith llwyddiannus ar gyfer yr awdurdod lleol, gan ddefnyddio grant y llywodraeth yn effeithiol. Mae arweinyddiaeth ysbrydoledig rheolwr y ddarpariaeth wedi creu diwylliant cefnogol i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws yr awdurdod lleol. Mae tîm ymroddedig yn hyrwyddo balchder disgyblion yn y Gymraeg, gan gefnogi eu lles yn gadarn.

Mae arweinwyr yn meithrin perthnasoedd cryf rhwng ysgolion lleol, disgyblion a rhieni wrth ddatblygu'r trefniadau trochi yn y Gymraeg. Er enghraifft, maent yn gweithio gydag ysgolion i gynllunio'r ddarpariaeth ac maent yn cefnogi disgyblion a'u teuluoedd i bontio'n llwyddiannus i addysg Gymraeg.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo dysgu proffesiynol staff yn llwyddiannus. Maent yn ymchwilio'n  frwd i arferion dwyieithrwydd yn ogystal â chynnal dysgu proffesiynol mewn ysgolion eraill. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau Cymraeg staff a disgyblion ar draws yr awdurdod. Mae rheolwr y ganolfan yn bachu ar bob cyfle i arloesi wrth hybu'r trefniadau trochi i wella safonau ym medrau llafar y disgyblion. Er bod gan arweinwyr ymrwymiad i ddatblygu trefniadau trochi ar draws yr awdurdod, nid ydynt yn defnyddio prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ddigon bwriadus i osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygiad y ddarpariaeth dros amser, yn enwedig yn y sector cynradd. Mae cefnogaeth lles disgyblion yn gryfder amlwg gyda strategaethau gwybodus sy'n arfogi staff i gynorthwyo dysgwyr. Mae'r dulliau hyn yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol disgyblion at ddysgu, gan sicrhau bod bron bob un yn teimlo'n ddiogel.

Mae angerdd a brwdfrydedd y staff yn hybu cymuned ddysgu fyrlymus ac maent yn darparu profiadau dysgu ysgogol a phwrpasol i'r disgyblion. Mae'r staff yn fodelau rôl ieithyddol gadarn ac yn cefnogi disgyblion yn fwriadus. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n hapus ac mae eu presenoldeb a'u hymddygiad yn dda.

Dros amser, mae'r ddarpariaeth yn cefnogi llawer o'r disgyblion i wneud o leiaf gynnydd da yn eu medrau siarad Cymraeg. Mae gan y rhan fwyaf agweddau cadarnhaol at y Gymraeg ac maent yn ymfalchïo yn eu gallu i gyfathrebu'n amlieithog. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau'n bwrpasol ar draws y cwricwlwm.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r awdurdod lleol i barhau i wella:

A1 Cynllunio'n fwy bwriadus i sicrhau cyfeiriad strategol clir i drefniadau trochi yn y Gymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Ddim mewn gweithgarwch dilynol**

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

**Pan wahoddir y darparwr i ddarparu astudiaeth achos**

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â datblygu lles disgyblion i hybu agweddau cadarnhaol at ddysgu'r Gymraeg a chefnogi datblygiad eu medrau llafar, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu yn Wrecsam ac i hybu'r defnydd o Gymraeg i bawb. Mewn cyfnod byr, mae arweinwyr wedi datblygu trefniadau trochi iaith yr awdurdod lleol yn llwyddiannus. Maent wedi defnyddio grant y llywodraeth yn ddarbodus i gefnogi datblygiad y Gymraeg ar draws yr awdurdod. Mae arweinyddiaeth gadarn ac ysbrydoledig rheolwr y ddarpariaeth wedi creu diwylliant cefnogol i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws yr awdurdod lleol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y disgyblion a'r staff. Mae arweinwyr wedi datblygu tîm effeithiol o staff sy'n ymroi'n llwyr i werthoedd y ddarpariaeth. Maent yn meithrin balchder y disgyblion yn yr iaith Gymraeg, law yn llaw a sicrhau eu hunanhyder wrth gefnogi lles a pharodrwydd i ddysgu disgyblion yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn meithrin perthnasoedd cryf rhwng ysgolion lleol, disgyblion a rhieni wrth ddatblygu'r trefniadau trochi yn y Gymraeg. Mae gan y ddarpariaeth uwchradd leoliad penodol gyda chynllun clir o ran trefniadaeth y ddarpariaeth. Mae staff y

ddarpariaeth yn meithrin perthnasoedd cynnar â'r disgyblion a'u teuluoedd ac yn darparu sesiynau blasu ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgolion cynradd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae niferoedd y disgyblion yn y ddarpariaeth uwchradd wedi cynyddu'n sylweddol. Yn y cynradd, mae arweinwyr yn cydweithio'n agos â phenaethiaid ysgolion Cymraeg lleol wrth gynllunio darpariaeth fwriadus i ddiwallu anghenion hwyrddyfodiaid a'r disgyblion hynny sydd angen cefnogaeth ieithyddol. Maent yn treialu nifer o raglenni amrywiol i gefnogi medrau ieithyddol y disgyblion. Maent yn ymateb yn hyblyg i gefnogi'r disgyblion, yr ysgolion cynradd a'r teuluoedd. Drwy'r gefnogaeth ddwys hon, mae arweinwyr yn diwallu anghenion yr hwyrddyfodiaid yn bwrpasol ac yn sicrhau nad yw disgyblion yn gadael y sector addysg Gymraeg.

Yn gyffredinol, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r trefniadau trochi yn y Gymraeg a'r meysydd i'w gwella. Maent yn defnyddio ystod o weithgareddau addas ar gyfer gwerthuso safonau'r dysgu a'r addysgu, er enghraifft drwy gyfarfodydd staff cyfan i gysoni, mireinio ac addasu profiadau'r disgyblion ar draws yr oedrannau dysgu. Mae rheolwr y ganolfan yn bachu ar bob cyfle i arloesi wrth hybu'r trefniadau trochi i wella safonau ym medrau llafar y disgyblion. Er bod gan arweinwyr ymrwymiad i ddatblygu trefniadau trochi ar draws yr awdurdod, nid ydynt yn defnyddio prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ddigon bwriadus i osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygiad y ddarpariaeth dros amser, yn enwedig yn y sector cynradd.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol â staff ysgolion lleol er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel lles a hyrwyddo datblygiad y Gymraeg o fewn yr awdurdod lleol. Mae arweinwyr yn annog staff i gydweithio ag athrawon ar draws ysgolion yr awdurdod i ymgymryd ag ymchwiliadau gweithredol i edrych ar effaith dwyieithrwydd ar ddisgyblion. Yn ddiweddar, maent wedi ymweld â Chanada i weld sut mae'r cymunedau lleol yn hybu dwyieithrwydd ymysg y gymdeithas leol. Yn dilyn yr ymweliad, maent wedi dechrau arbrofi â'r defnydd o feicroffonau i gefnogi datblygiad llafaredd disgyblion.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Maent yn cynnig cyfleoedd cyfoethog iddynt ymgymryd ag ystod dda o ddysgu proffesiynol, sy'n ymateb i'w gofynion unigol a blaenoriaethau'r disgyblion yn gadarn.

**Ciplun: Datblygu medrau Cymraeg staff a disgyblion mewn ysgolion Saesneg**

Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i gefnogi dysgu proffesiynol ar draws yr awdurdod drwy ddarparu hyfforddiant caffael iaith effeithiol. Yn ddiweddar, maent yn hyrwyddo datblygiad medrau Cymraeg staff a disgyblion rhai o'r ysgolion Saesneg lleol yn llwyddiannus. Mae staff y ganolfan yn teilwra cefnogaeth fwriadus i ddiwallu anghenion yr ysgolion yn unigol ac yn cydweithio i ddarparu gweithgareddau ysgogol i gefnogi

datblygiad medrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae hyder y staff i addysgu'r Gymraeg wedi cynyddu, sydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion. Yn ogystal, mae hyn wedi arwain at dwf yn niferoedd y disgyblion sy'n trosglwyddo i addysg uwchradd Gymraeg yn flynyddol. Bellach, mae hwn yn sylweddol uwch na'r targed a osodwyd gan yr awdurdod yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA).

Mae cefnogi lles disgyblion yn gryfder amlwg ar draws y ddarpariaeth. Elfen effeithiol iawn o hyn yw sut mae arweinwyr wedi datblygu strategaethau blaengar i alluogi staff i fod yn ystyriol o effaith trawma. Mae'r hyfforddiant arbenigol y maent wedi derbyn yn sicrhau bod pob aelod o staff wedi'u harfogi i gynorthwyo dysgwyr. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth ddyfnach o brofiadau pob un o'r dysgwyr, a'r ffyrdd y dylid ymdrin â phob dysgwr ar sail angen. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel ac yn barod iawn i rannu unrhyw bryderon gyda'r oedolion.

Mae'r ddarpariaeth trochi yn cynorthwyo disgyblion yn y camau nesaf yn eu datblygiad ieithyddol yn effeithiol. Yn yr uwchradd er enghraifft, mae athrawon yn paratoi'r dysgwyr i allu defnyddio eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm mewn gwaith prosiect y brif ffrwd. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar hyder y disgyblion wrth iddynt gaffael medrau ieithyddol newydd. Mae'r disgyblion yn trosglwyddo'n llyfn i'r ddarpariaeth ac i'w hysgol nesaf trwy rannu gwybodaeth berthnasol, yn ogystal â threfnu sesiynau blasu ac ymweliadau buddiol dros amser.

Dros amser, mae'r ddarpariaeth yn cefnogi llawer o'r disgyblion i wneud o leiaf gynnydd da yn eu medrau siarad Cymraeg. Mae gan y rhan fwyaf agweddau cadarnhaol at y Gymraeg ac maent yn ymfalchïo yn eu gallu i gyfathrebu'n amlieithog. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau'n bwrpasol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith andwyol arnynt, yn magu hyder yn eu medrau siarad Cymraeg. Mae'r staff yn cynnal amrediad o strategaethau ymyrraeth yn llwyddiannus sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion yn ogystal â'u medrau cymdeithasol a'u lles. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus wrth gyfrannu i'w dysgu.

Mae athrawon yn fodelau rôl ieithyddol cadarn ac yn annog a chefnogi disgyblion i ddefnyddio cystrawennau a geirfa gywir. Mae hyn, ar y cyfan, yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad iaith disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn defnyddio geirfa pwnc berthnasol fel 'enwadur' a 'rhifiadur' yn fwriadus wrth drafod ffracsiynau.

Yn yr arferion gorau, mae egni ac angerdd heintus athrawon yn hybu cymuned ddysgu fyrlymus sy’n cymell ac arfogi disgyblion i gaffael y Gymraeg. Mae athrawon yn defnyddio ystod dda o adnoddau a dulliau addysgu amlsynhwyraidd effeithiol sy’n hwyluso cynnydd disgyblion yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn modelu’r defnydd o ystumiau corfforol i adalw llythrennau’r wyddor yn fedrus. Mae staff yn ymateb yn bwrpasol i ddysgu’r disgyblion ac yn addasu’r ddarpariaeth, yn ôl yr angen. Er hyn, ar brydiau, nid yw staff yn holi disgyblion yn ddigon treiddgar. Mae tueddiad i orddefnyddio cwestiynau arweiniol a chaeedig ac nid yw dulliau holi’r athrawon yn cynnig cyfleoedd digon rheolaidd i ddisgyblion feddwl yn ddyfnach na chyflwyno ymatebion mwy estynedig. Mae trefniadau pwrpasol ar gyfer monitro a thracio cynnydd disgyblion. Mae staff yn adrodd yn amserol i rieni ar gynnydd a chamau dysgu nesaf eu plentyn.

Mae staff yn sefydlu perthynas weithio glòs a chefnogol â disgyblion sy’n seiliedig ar ymddiriedaeth. Mae’r dosbarthiadau trochi yn gymunedau hapus a chyfeillgar. Mae pwyslais ar hyrwyddo ymddygiad da gan sicrhau bod y disgyblion yn dangos cwrteisi at oedolion a’u cyfoedion. Ar y cyfan, mae gan staff ddisgwyliadau uchel o’r disgyblion ac maent yn darparu profiadau dysgu sy’n herio llawer o’r disgyblion yn addas. Mae athrawon a staff cefnogi yn sefydlu amgylchedd ddysgu ysgogol sy’n ddeniadol a hwyliog. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn hapus yn y ddarpariaeth ac yn dangos parch tuag at yr oedolion sydd yn eu helpu i gaffael y Gymraeg.

Mae arweinyddiaeth gadarn y trefniadau trochi yn y Gymraeg yn sicrhau bod gan staff adnabyddiaeth gynhwysfawr o anghenion lles a dysgu’r disgyblion. Maent yn defnyddio’r wybodaeth hon i gynllunio cwricwlwm diddorol sy’n ymateb yn bwrpasol i anghenion disgyblion ac sy’n ymgorffori a dathlu cyd-destun, diwylliant a threftadaeth yr ardal leol yn llwyddiannus.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r darparwr ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff, arweinwyr, a phenaethiaid ysgolion cofrestredig y disgyblion trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn arsylwi'r addysgu a gweithgareddau eraill, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu
- yn cyfarfod â disgyblion (cyfredol a chyn ddisgyblion) i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol o waith y darparwr
- yn cyfarfod â staff, arweinwyr, rheolwyr, penaethiaid ysgolion cofrestredig y disgyblion ac eraill i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso
- yn ystyried Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)/ cynllun gwella ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr awdurdod lleol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  13/02/2025